Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 460

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Rhodd Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt 2026

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt wedi gofyn am gyllid i gefnogi darparu lles a gweithgareddau cysylltiedig yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 2026 (18 Gorffennaf–23 Gorffennaf 2026). Mae Sioe Frenhinol Cymru yn ddigwyddiad blynyddol mawr sy'n denu nifer sylweddol o ymwelwyr, gan roi mwy o alw ar blismona, diogelwch cymunedol a gwasanaethau brys.

Bydd y cyllid yn cyfrannu at ddarparu lluniaeth a chyfleusterau lles i bersonél rheng flaen a gwirfoddolwyr sy'n gweithredu drwy gydol y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: Bugeiliaid Stryd; Ambiwlans Sant Ioan Cymru; gweithwyr ieuenctid; Heddlu Dyfed-Powys a phersonél eraill sy'n ymwneud â rheoli diogelwch digwyddiadau.

Mae cefnogi llesiant y partneriaid hyn yn eu galluogi i gynnal presenoldeb effeithiol a gweladwy a darparu gwasanaethau diogelu, ymateb i ddigwyddiadau ac ymgysylltu hanfodol yn ystod digwyddiad cyhoeddus ar raddfa fawr.

Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi'r digwyddiad hwn dros nifer o flynyddoedd, gan gydnabod ei arwyddocâd wrth sicrhau amgylchedd diogel, gwydn sydd wedi'i reoli'n dda, i fynychwyr, cyfranogwyr, a chymunedau lleol. Mae'r cyllid hwn yn cryfhau gweithio mewn partneriaeth, yn cefnogi sicrwydd gweladwy, ac yn cyfrannu at atal niwed mewn digwyddiad cyhoeddus mawr.

**Argymhelliad:**
Darparu rhodd o £1,000 o gyllideb Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd i gefnogi Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 2026.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/06/2026**